



Delyth Molyneux
Pennaeth Dysgu / Head of Learning

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Adran Dysgu Gydol Oes / Lifelong Learning Dept.
Swyddfeydd y Cyngor / Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

ffôn / tel: (01248) 752900 ffacs / fax: (01248) 724264

Gofynnwch am - Please ask for: Mrs Delyth Molyneux

ffôn / tel (01248) 752916 ffacs / fax (01248) 724264

E-Bost - E-mail: dxmed@anglesey.gov.uk
Ein Cyf - Our Ref. DM/dgg
Eich Cyf - Your Ref.

16/03/2017

Annwyl Riant/ Gofalwr,

Diogelu ac Amddiffyn Plant a Pobl Ifanc – Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) Tiwtoriaid Preifat

Mae'r Awdurdod Lleol yn cymryd ei gyfrifoldebau diogelu ac amddiffyn plant o ddifrif a hoffai gymryd y cyfle hwn i gynnig ychydig o arweiniad i rieni sy'n dewis defnyddio tiwtor preifat ar gyfer eu plentyn.

Gwiriad a wneir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar unigolion sy'n gweithio gyda phlant neu ochr yn ochr â nhw yw Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Lle bo'n berthnasol, bydd y dystysgrif yn cynnwys gwybodaeth am yr unigolyn sy'n ymwneud ag unrhyw droseddau neu erlyniad a allai atal y person hwnnw rhag gweithio yn y rôl honno. Os na cheir euogfarnau ayb, bydd y dystysgrif yn glir o unrhyw wybodaeth.

Eiddo preifat pob unigolyn yw'r dystysgrif ond cynghorir rhieni/gofalwyr sy'n dewis defnyddio gwasanaethau tiwtor preifat i ofyn i weld copi o'r dystysgrif GDG er mwyn bodloni eu hunain yr ystyrir y person yn addas i ddod i gysylltiad â'u plentyn neu berson ifanc.

Nid oes unrhyw rwymedigaeth ar diwtoriaid preifat i gael gwiriad o'r fath, ond rydym yn cynghori rhieni i ofyn i weld tystysgrif GDG unrhyw diwtor cyn gwneud eich penderfyniad i ddefnyddio ei wasanaethau. Bydd gan diwtoriaid cyfrifol dystysgrif a dylent fod yn hapus i ddangos y ddogfen honno i chi. Os oes gan y tiwtor GDG "clir", ni fydd unrhyw beth wedi'i nodi yn erbyn y person hwnnw. Os, serch hynny, y nodwyd unrhyw droseddau neu euogfarnau perthnasol yn erbyn y person hwnnw, bydd y rhain wedi'u nodi ar y dystysgrif GDG. Felly cynghorir rhieni/gofalwyr i weld y ddogfen lawn a pheidio â dibynnu ar weld enw a dyddiad cyhoeddi unrhyw dystysgrif. Dylai unrhyw wybodaeth berthnasol ar y dystysgrif GDG eich cynorthwyo i benderfynu a ydych am ddefnyddio gwasanaethau'r unigolyn penodol hwnnw.

Os nad oes gan y tiwtor wiriad GDG ac nid yw'n gallu dangos dogfen o'r fath, yna efallai yr hoffech ystyried a ydych am ddefnyddio ei wasanaethau neu chwilio am diwtor arall y mae ganddo GDG ac sy'n fodlon rhannu cynnwys y dystysgrif â chi.

Rhoddir yr wybodaeth hon i rieni fel arweiniad ar ddefnyddio tiwtoriaid unigol. Os oes gennych unrhyw ymholiad ynghylch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, mae'r wybodaeth yma ar gael ar ei wefan yn <https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service>

Cofion,



Delyth Molyneux
Pennaeth Dysgu